Carwyn Jones AC/AM

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
Counsel General and Leader of the House

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

25 Ebrill 2008

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU ENSEFFALOPATHÏAU SBYNGFFURF TROSGLWYDDADWY (CYMRU) (DIWYGIO) 2008

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu ei bod wedi dod yn angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â'r Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2008 i rym yng Nghymru yn unol â gweddill y DU. Gwnaed y Rheoliadau hyn ac fe'u cyflwynwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Ebrill 2008 a byddant yn dod i rym ar 26 Ebrill 2008.

Mae Rheoliad (CE) 999/2001 (fel y'i diwygiwyd) Senedd Ewrop a'r Cyngor (Rheoliadau TSE y Gymuned) yn cyflwyno'r rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu rhai Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs) penodol. Mae Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliadau TSE y Gymuned yng Nghymru.

Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006 ac yn gweithredu newid yn rheolaethau'r UE ar ddeunydd risg penodedig (SRM) sy'n cynyddu'r oedran lle pennir bod asgwrn cefn (VC) buchol yn SRM o 24 mis i 30 mis yng Nghymru. Byddai'r diwygiad hwn yn golygu bod y terfyn oedran VC buchol yn y DU yn dychwelyd i'r hyn yr oedd cyn mis Mai 2006, pan oedd rheolaethau SRM y DU yn cael eu cysoni â rheolaethau pob un o'r Aelod-wladwriaethau eraill fel rhan o'r broses i godi'r gwaharddiad allforio ar gig eidion a chynhyrchion cig eidion y DU. O ganlyniad, nid yw'r newid hwn yn bygwth iechyd y cyhoedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Bydd Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) (Diwygio) 2008 yn golygu na fydd yn ofynnol i ffatrïoedd torri na chigyddion awdurdodedig bellach symud, staenio neu gael gwared ar VC o wartheg 24 – 30 mis fel pe bai'n VC. Ni fydd yn ofynnol ychwaith i'r Gwasanaeth Hylendid Cig nac awdurdodau lleol barhau i orfodi rheolaethau SRM mewn cysylltiad â VC o wartheg 24 – 30 mis mewn ffatrïoedd torri nac ar safleoedd cigyddion yn ôl eu trefn.

At hynny, gellid defnyddio esgyrn (gan gynnwys asgwrn cefn) gwartheg a gafodd eu tynnu yn y DU wrth weithgynhyrchu cynhyrchion bwyd wedi'u prosesu yn hytrach na chael gwared arnynt fel sgil-gynhyrchion anifail. Byddai cigyddion, ffatrïoedd torri a lladd-dai yn elwa a byddai hyn yn arwain at fwy o ddewis i ddefnyddwyr. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno darpariaeth sy'n gweithredu un o ofynion cyfredol yr UE sef bod yn rhaid i Aelod-wladwriaethau sydd am allforio pennau neu garcasau heb eu hollti sy'n cynnwys SRM gael cytundeb i wneud hynny gan yr Aelod-wladwriaeth fydd yn derbyn y cynnyrch hwnnw cyn ei dderbyn. Bydd y Rheoliadau hefyd yn diweddaru rhai croesgyfeiriadau at ddeddfwriaeth TSE y Gymuned.

Yn olaf, maent hefyd yn cyflwyno rhai trefniadau trosiannol a fydd yn caniatáu cyfnod byr lle caiff pob ffatri dorri a chigyddion sy'n awdurdodedig ar hyn o bryd gael gwared ar VC o wartheg 24-30 mis a laddwyd cyn 26 Ebrill. Byddai'n parhau'n ofynnol iddynt gael gwared ar y VC o'r anifeiliaid hyn fel SRM. Daw'r newidiadau hyn yn sgil sylwadau gan y diwydiant ynghylch yr effaith bosibl ar fasnachu carcasau 24-30 mis sy'n cynnwys VC sy'n SRM, a allai eisoes fod yn rhan o'r gadwyn ddosbarthu pan ddaw'r Rheoliadau i rym.

Daw'r Rheoliad CE newydd (CE Rhif 357/2008), a gyhoeddwyd yn y Cyfnodolyn Swyddogol (OJ) ar 23 Ebrill 2008, i rym ar 26 Ebrill 2008. Byddai'r DU yn torri gofyniad y Gymuned pe na byddai'n gweithredu'r ddeddfwriaeth ddomestig alluogi ac er mwyn cyflawni'r dyddiad dod i rym byr, sydd gwta 3 diwrnod wedi'r cyhoeddi yn yr OJ, rhaid torri'r rheol 21 diwrnod.

Mae Rheoliadau tebyg yn cael eu gwneud yn Lloegr, yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon i ddod i rym ar 26 Ebrill 2008. O ganlyniad, byddai oedi wrth gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru yn arwain at gymhlethu'r rheolaethau mewn gwahanol rannau o'r DU. O ganlyniad, er mwyn sicrhau bod y manteision cadarnhaol ar gael i'r diwydiant yng Nghymru ac i osgoi cymhlethu'r rheolaethau, mae'n rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 26 Ebrill 2008 yng Nghymru.

Cynhaliodd yr Asiantaeth ymgynghoriad 8 wythnos ar y newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth ddomestig rhwng 7 Tachwedd 2007 a 2 Ionawr 2008. Aeth yr Asiantaeth ati i ymgynghori â deg ar hugain o randdeiliaid yn ogystal â PHOB UN o'r gweithredwyr ffatrïoedd cig awdurdodedig yng Nghymru. Dim ond 5 ymateb o sylwedd a ddaeth i law. Roedd y rhain yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig ac ni wnaethant esgor ar unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau drafft. Mae'r diwydiant wedi lobïo'n ddygn am y newid hwn ac mae wedi bod yn aros iddo gael ei gyflwyno. Mae manteision y cynnig yn gadarnhaol o safbwynt arian a sicrhau dewis i ddefnyddwyr.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi hefyd, sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac mae hwn wedi'i gyflwyno, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ac at Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir